

Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

# PECYN CAIS AM SWYDD

tancgc.gov.uk

# Rhagarweiniad

Annwyl Ymgeisydd,

Diolch am ddangos diddordeb mewn ymuno â Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Fy ngweledigaeth i ar gyfer ein Gwasanaeth yw iddo 'fod yn arweinydd byd mewn ymateb brys a diogelwch cymunedol.' Er bod gennym hanes balch o gyflawni, rydym yn gwybod bod yna le i wella bob amser.

Pan fydd pobl yn meddwl am yrfa yn y Gwasanaeth Tân ac Achub, maen nhw'n tueddu meddwl am Ymladdwyr Tân yn ymateb i ddigwyddiadau brys, ond nid Diffoddwyr Tân yn unig sy'n gwneud canolbarth a gorllewin Cymru yn lle mwy diogel.

Y tu ôl i'r sefyllfa weithredol, mae gan y Gwasanaeth ystod eang o swyddi eraill mewn gwahanol adrannau sydd naill ai wedi'u lleoli mewn swyddfa neu yn ein gweithdai, ac rydym yn cyflogi pobl mewn swyddi proffesiynol, technegol a gweinyddol.

Heb fod gennym swyddogaethau cymorth corfforaethol yn eu lle er mwyn darparu'r systemau, y prosesau a thechnoleg, ni fyddai'r Gwasanaeth yn gallu darparu'r gwasanaeth gorau posibl i'n cymunedau.

Os ydych chi'n chwilio am yrfa gydag amrywiaeth, her a chyfleoedd i symud ymlaen, ynghyd â'r holl fanteision y byddech chi'n eu disgwyl gan sefydliad gwasanaeth cyhoeddus allweddol, yna beth am ystyried ymuno â ni yn un o'n swyddogaethau cymorth arbenigol neu weinyddol?

Diolch a phob lwc,



Roger Thomas
Prif Swyddog Tân, *Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig*

## EIN GWELEDIGAETH

I ddarparu'r Gwasanaeth gorau posibl i gymunedau canolbarth a gorllewin Cymru.

## OUR VISION

To deliver the best possible service for the communities of mid and west Wales.



#eichgtacgc #yourmawwfrs

# YMDDYGIADAU

- Bod yn Atebol
- Bod yn Barchus
- Dangos Uniondeb
- Bod yn Ddiduedd
- Bod yn Foesegol

# GALLUOGI

- Ein pobl
- Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol
- Arweinyddiaeth a Rheolaeth: Llywodraethu, gwneud penderfyniadau a gwelliant parhaus.
- Strategaeth Ddigidol a Thechnolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu
- Cadernid Ariannol
- Partneriaethau a Chydweithio

# Manylion am y Gwasanaeth



rydym yn gwasanaethu
**4500**
cilometr sgwâr
(11,700 km²)
o Gymru

Crëwyd y Gwasanaeth ym 1996 gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, yn dilyn uno Brigadau Tân Dyfed, Powys a Gorllewin Morgannwg. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gwasanaethu ardaloedd y Cynghorau Sir canlynol:

City and County of Swansea – Dinas a Sir Abertawe
Cyngor Castell-nedd Port Talbot – Neath Port Talbot Council
Cyngor Sir Gâr – Carmarthenshire County Council
Pembrokeshire County Council
Powys

Mae'r Gwasanaeth yn cyfrif am bron i ddwy ran o dair o Gymru, gan gwmpasu ardal wledig yn bennaf sy'n 11,700 km² (4,500 milltir sgwâr), gyda 650km o arfordir. Mae'r Gwasanaeth, sydd â'i Bencadlys yng Nghaerfyrddin, yn cyflogi 1300 o staff, gydag ychydig dros 1100 o'r rheini wedi'u lleoli mewn un o 58 o orsafoedd ar draws tair Isadran. Mae gan y Gwasanaeth y trydydd teneurwydd poblogaeth uchaf yng Nghymru a Lloegr ac mae yna 900,000 o bobl yn byw oddi mewn i ardal ein Gwasanaeth. Mae'r nifer hwn yn cynyddu i dros 2 filiwn yn sgil twristiaeth yn ystod misoedd yr haf.

Dyma'r trydydd Gwasanaeth Tân ac Achub mwyaf yn ddaearyddol yn y Deyrnas Unedig, yn dilyn Gwasanaethau Tân ac Achub yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae hyn ynddo'i hun yn cyflwyno ystod o heriau gwahanol.

Ceir nifer o risgiau o wahanol fath oddi mewn i ardal y Gwasanaeth, yn amrywio o'r diwydiannau petrocemegol yn Aberdaugleddau, i'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ardaloedd poblog iawn fel Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Mae yma hefyd gymuned ffermio fawr a llawer o ddiwydiannau ysgafn eraill ar hyd ac ar led yr ardal.

Mae'r rhain, ynghyd ag arfordir helaeth a dyfrffyrdd mewndirol, yn creu rhai o'r risgiau arbenigol sydd i'w cael oddi mewn i'r Gwasanaeth.

gyda phoblogaeth o
**910,000**
yn byw mewn
**434,500**
o gartrefi

cydymffurio
**58**
o orsafoedd tân
gyda
**1350**
o staff

**402** Llawn amser
**702** Ar alwad
**23** Canolfan rheoli tân ar y cyd
**243** Staff cynorthwyol

# Buddion

Mae gweithio i'r Gwasanaeth yn agor y drws i bortffolio cyfan o fuddion all wella eich ffordd o fyw nawr ac i'r dyfodol.

### Cyfraddau cyflog cystadleuol -

wedi'u hadolygu'n ddiweddar i sicrhau tegwch ar draws pob rôl; gyda chynyddrannau blynyddol hyd at frig eich band cyflog, wrth i chi feithrin gwybodaeth a magu profiad.

### Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol -

Cynllun pensiwn hael, gyda'r Gwasanaeth yn gwneud cyfraniad sylweddol (15.2% ar hyn o bryd) i ariannu eich ymddeoliad, yn ogystal â'r opsiwn i gynyddu eich buddion drwy brynu pensiwn ychwanegol neu fuddsoddi mewn Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY).

### Gwyliau Blynyddol hael –

26 diwrnod ynghyd â gwyliau banc, gan gynyddu hyd at 33 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o gyflogaeth.

### Cynllun Hyblyg –

Cyfle i ystwytho eich oriau gwaith er mwyn helpu ymdopi â bywyd y tu allan i'r gwaith.

Parcio am ddim ar y safle

Beicio i'r gwaith

Cynllun disgownt i staff

Iechyd a Lles

- Mynediad i gynllun disgownt Cerdyn Golau Glas
- Cynllun Aberthu Cyflog Prydlesu Ceir
- Cynllun benthyca offer TG Let's Connect
- Cyfleusterau ffreutur â chymhorthdal
- Clwb Chwaraeon a Chlwb Cymdeithasol
- Elusen Diffoddwyr Tân

# Amgylchedd Gwaith wedi'i Ffurfio gan ein Gwerthoedd

### Wedi ymrwymo i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth -

Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth wraidd yr hyn a wnawn fel Gwasanaeth ac maent yn werthoedd sydd wrth wraidd prosesau, arferion a diwylliant ein sefydliad.

Fel gwasanaeth, rydym wedi ymrwymo i ganfod, deall a dileu'r holl rwystrau sy'n atal mynediad at wasanaethau, gwybodaeth a chyflogaeth.

Ar hyn o bryd mae gan y Gwasanaeth nifer fach o rwydweithiau / fforymau gweithwyr mewnol ar waith, sy'n chwarae rhan weithredol yn y dasg o:

- Hyrwyddo materion ar gyfer gweithwyr;
- Cyfrannu at agenda amrywiaeth a chynhwysiant y sefydliad;
- Cynghori ar ddatblygu polisi;
- Gwella'r amgylchedd gwaith i'r gweithwyr

wedi ymrwymo i leihau ein heffaith amgylcheddol

### Wedi ymrwymo i leihau ein Heffaith Amgylcheddol -

Rydym yn cydnabod bod ein gweithrediadau yn cael effaith ar yr amgylchedd byd-eang a lleol ac rydym wedi ymrwymo i leihau effeithiau amgylcheddol andwyol oddi mewn i gyfyngiadau ariannol, gweithredol ac adnoddau.

Yn ein ras i Statws Carbon Sero Net erbyn 2030, mae'r Gwasanaeth wedi pennu targedau iddo'i hun sy'n cyd-fynd â map llwybr Llywodraeth Cymru ar gyfer datgarboneiddio ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r Gwasanaeth wedi sicrhau achrediad Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd Lefel 5, a hynny am yr 8fed flwyddyn yn olynol.

# #SERO30

# Disgrifiad Swydd

Cyflog: Gradd 9 - £39,862- £41,771

| | |
|---|---|
| **TEITL Y SWYDD:** | Gweinyddwr System TGCh |
| **SAFLE/RÔL:** | Gradd 9 |
| **CYFEIRNOD Y SWYDD:** | |
| **LLEOLIAD:** | Adran TGCh, Pencadlys Gwasanaethau, Sir Gaerfyrddin |
| **YN GYFRIFOL I:** | Rheolwr TGCh |
| **PRIF DDIBEN Y SWYDD:** | Sicrhau bod y Systemau a'r Gweinyddion TGCh yn ddiogel, wedi'u ffurfweddu'n dda, yn cael eu cynnal a'u dogfennu. |

| ATODLEN O GYFRIFOLDEBAU | YN GYFRIFOL I |
|---|---|
| 1. Helpu i sicrhau bod y CLG ar gyfer yr adran yn cael ei fonitro a'i gadw lle bo'n ymarferol yn eich rôl. | Rheolwr Tîm |
| 2. Mynychu hyfforddiant technegol a chyrsiau ymgyfarwyddo system yn ôl yr angen (gan gynnwys y cais i chi aros dros nos). | Rheolwr Tîm |
| 3. Cynrychioli'r adran TGCh mewn cyfarfodydd, gweithgorau a thebyg fel sy'n ofynnol gan arweinydd eich tîm neu Bennaeth TGCh. | Rheolwr Tîm |
| 4. Sicrhau bod pob rhan o'r swyddfa, y gweithdy a'r mannau storio yn cael eu cadw'n lân ac yn daclus, bod yr holl stoc wedi'i labelu'n gywir a lle bo'n briodol, yn cael ei waredu'n gyflym trwy bolisïau gwasanaeth. | Rheolwr Tîm |
| 5. Sicrhau bod staff yn cydymffurfio â'r ISPD a bod yr holl waith yn cael ei wneud yn unol â'r polisi a pholisïau Gwasanaeth eraill megis polisïau Prosesu Data. | Pennaeth TGCh |
| 6. Cydymffurfio â chanllawiau iechyd a diogelwch a'r holl bolisïau eraill sy'n gysylltiedig â chyflogaeth y Gwasanaeth. | Pennaeth TGCh |
| 7. Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill yn ôl cyfarwyddyd eich rheolwr llinell neu Bennaeth TGCh sy'n gymesur â chyfrifoldebau adrannol ehangach. | Rheolwr Tîm/Pennaeth TGCh |
| 8. Sicrhau bod unrhyw geisiadau TGCh am gymorth yn cael eu cofnodi i'r ddesg gymorth TGCh. | Rheolwr Tîm |
| 9. Helpu i ddatblygu, lledaenu a hyrwyddo arferion da sy'n gysylltiedig â TG ledled y sefydliad gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â diogelwch meddalwedd a thrwyddedu. | Rheolwr Tîm |
| 10. Yn meddu ar drwydded yrru lawn. Yn gallu gyrru bob amser mewn modd diogel. | Rheolwr Tîm |
| 11. Helpu i sicrhau bod amcanion presennol y Gwasanaeth yn cael eu cyflawni a'u hadrodd. | Pennaeth TGCh |

| | |
|---|---|
| 12. Cymorth gydag unrhyw Archwiliadau o'r adran, systemau neu Feddalwedd yn ôl yr angen. | Pennaeth TGCh |
| 13. Sicrhau bod yr holl waith caffael yn cael ei wneud mewn modd sy'n cadw at bolisi caffael y Gwasanaeth. | Pennaeth TGCh |
| 14. Cwblhau dysgu hunan-gyfeiriedig rheolaidd yn ôl yr angen ar gyfer eich rôl neu fel y cyfarwyddir gan Bennaeth yr Adran i sicrhau eich datblygiad personol parhaus. | Pennaeth TGCh |
| 15. Sicrhau effeithiolrwydd seilwaith systemau TGCh ar draws y gwasanaeth. | Rheolwr TGCh |
| 16. Sicrhau bod systemau, gweinyddion a'r feddalwedd sy'n rhedeg arnynt wedi'i ffurfweddu'n iawn ac yn darparu argaeledd 24/7. | Rheolwr TGCh |
| 17. Sicrhau bod y systemau a'r gweinyddion yn addas i'r diben, yn rhoi gwerth am arian tra hefyd yn cynllunio ar gyfer graddiadwyedd yn y dyfodol ac yn cael eu defnyddio'n gywir ar gyfer y dasg y mae'n ofynnol iddynt ei chyflawni. | Rheolwr TGCh |
| 18. Sicrhau bod Ystafelloedd Data wedi'u trefnu'n dda, wedi'u labelu'n glir, eu rheoli'n effeithiol a'u cadw'n daclus a diogel. | Rheolwr TGCh |
| 19. Darparu cyngor ar systemau a meddalwedd gweinydd i'r tîm TGCh a'r sefydliad ehangach. | Rheolwr TGCh |
| 20. Cymryd cyfrifoldeb gweinydd byd-eang am systemau cwmwl fel Microsoft 365 ac Azure gan sicrhau eu bod yn ddiogel, wedi'u ffurfweddu'n iawn ac ar gael i'r staff hynny sydd angen mynediad. | Rheolwr TGCh |
| 21. Sicrhau bod systemau'n cael eu monitro'n ddigonol ar gyfer rhybuddion a diffygion a chywiro'r rhain yn gyflym. | Rheolwr TGCh |
| 22. Cynyddu rhwyddineb defnyddio systemau wrth gadw'n ddiogel, e.e. Mewngofnodi Unwaith. | Rheolwr TGCh |
| 23. Sicrhau bod pob system yn cael ei gweithredu mewn modd diogel. | Rheolwr TGCh/Rheolwr Diogelwch a Chydymffurfiaeth TGCh |
| 24. Cyfrifoldeb am yr holl batsys a diweddariadau diogelwch (gan gynnwys gwrth-firws), sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n brydlon ac yn awtomatig a sicrhau bod profion yn cael eu cynnal cyn eu cyflwyno'n ehangach. | Rheolwr TGCh/Rheolwr Diogelwch a Chydymffurfiaeth TGCh |

| | |
|---|---|
| 25. Adolygu systemau TGCh yn rheolaidd i bennu unrhyw faterion neu ansicrwydd a chysylltu â'r rheolwr diogelwch a Chydymffurfiaeth TGCh i adrodd am y canfyddiadau. | Rheolwr TGCh/Rheolwr Diogelwch a Chydymffurfiaeth TGCh |
| 26. Argymell newidiadau neu welliannau sylweddol y dylid eu gwneud i'r Caledwedd a Meddalwedd Seilwaith gyda rhesymu manwl, costau a dadansoddiad risg priodol. | Rheolwr TGCh/Pennaeth TGCh |
| 27. Sicrhau bod gwerthusiad o galedwedd neu dechnolegau newydd yn cael ei wneud i weithdrefn gadarn ac mewn modd amserol. | Rheolwr TGCh |
| 28. Cadw dogfennaeth y system yn gyfredol gyda chynlluniau a diagramau manwl clir o seilwaith y rhwydwaith cyfan, yn hygyrch i'r tîm. | Rheolwr TGCh |
| 29. Sicrhau bod gweithdrefnau rheoli newid effeithiol yn cael eu cynnal bob amser, lle bo hynny'n ymarferol. | Rheolwr TGCh |
| 30. Sicrhau bod copïau wrth gefn yn cael eu creu o ffurfweddiadau yn rheolaidd a'u darparu mewn ardal sy'n hygyrch i dîm, gan gynnwys dogfennau i ganiatáu adferiad llwyddiannus. | Rheolwr TGCh |
| 31. Cadw'n gyfredol â hyfforddiant perthnasol ar gyfer offer Gwasanaeth a gweithredu a rhannu gwybodaeth a gafwyd o'r hyfforddiant hwnnw. | Rheolwr TGCh |
| 32. Defnyddio offer fel cyfeiriadur gweithredol a Pholisïau Grŵp i sicrhau eu bod yn cael eu sefydlu'n effeithiol ac yn darparu awtomeiddio defnyddiol ar gyfer diogelwch a meddalwedd gosod tasgau. | Rheolwr TGCh |
| 33. Gweithio gyda'r technegydd cymorth bwrdd gwaith neu dechnegwyr eraill fel y bo'n briodol i ddarparu'r offer i gyfoethogi ffurfweddi a datrys problemau sefydlu dyfais defnyddiwr. | Rheolwr TGCh |
| 34. Sicrhau bod datrysiadau mynediad o bell yn effeithiol, yn ddiogel ac yn addas at y diben i ddarparu cymwysiadau a mynediad gweinydd i ddefnyddwyr o bell. | Rheolwr TGCh |
| 35. Cadw'n gyfredol â swyddogaethau Gweinyddwr Rhwydwaith TGCh i gyflenwi yn ôl yr angen. | Rheolwr TGCh |
| 36. Rhoi adborth i Weinyddwr y Rhwydwaith ar y gofynion neu'r argymhellion i wella effeithiolrwydd cysylltedd â systemau. | Rheolwr TGCh |
| 37. Sicrhau bod systemau VOIP a Chynadledda Fideo yn gweithio'n ddibynadwy ar y cyd â Gweinyddwr y Rhwydwaith. | Rheolwr TGCh |

| | |
|---|---|
| 38. Creu a rheoli peiriannau rhithiol Hyper-V ac Azure gan ddefnyddio'r offer rheoli priodol a rhoi sylw dyledus i'r adnoddau system gofynnol gan ystyried y costau y gellir eu hysgwyddo. | Rheolwr TGCh |
| 39. Darparu dadansoddiad manwl o ymddygiad swyddogaethol systemau rhithiol, gan gynnwys sicrhau eu bod yn gywir, yn cynnal argaeledd uchel, yn seiliedig ar arferion gorau'r diwydiant. | Rheolwr TGCh |
| 40. Meddu ar awtomeiddio cadarn ar gyfer cadernid systemau Rhithiol a Chorfforol yn absenoldeb aelod o staff. | Rheolwr TGCh |
| 41. Yn gallu datrys a thrwsio problemau caledwedd gweinydd cyffredin neu berfformio uwchraddiadau. | Rheolwr TGCh |
| 42. Sicrhau bod dechreuwyr, ymadawyr a newidiadau rôl newydd yn cael eu sefydlu a'u bod yn cael y mynediad cywir at systemau bob amser. | Rheolwr TGCh |
| 43. Rheoli a ffurfweddu'r systemau e-bost gan sicrhau darpariaeth ddibynadwy a diogelwch negeseuon e-bost sefydliadol. | Rheolwr TGCh |
| 44. Sefydlu, ffurfweddu, cynnal, clystyru, cydgrynhoi a gwneud y gorau o SQL a chronfeydd data tebyg eraill yn ogystal â darparu barn arbenigol ar eu haddasrwydd. | Rheolwr TGCh |
| 45. Darparu mesurau lliniaru addas yn erbyn maleiswedd gan gynnwys meddalwedd wystlo. | Rheolwr TGCh/Rheolwr Diogelwch a Chydymffurfiaeth TGCh |
| 46. Darparu amgryptio effeithiol ar gyfer systemau yn ôl yr angen. | Rheolwr TGCh |
| 47. Sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion trwyddedu meddalwedd. | Rheolwr TGCh |
| 48. Darparu cefnogaeth yn ystod digwyddiadau critigol TGCh ar unrhyw adeg, gan gynnwys cysylltu â chyflenwyr allanol sy'n darparu cymorth critigol. | Rheolwr TGCh/Pennaeth TGCh |
| 49. Sicrhau bod sgriptio ac awtomeiddio yn cael eu defnyddio'n effeithiol i leihau llwythi gwaith. | Rheolwr TGCh |
| 50. Cynllunio uwchraddiadau a systemau gweinydd a chymylau newydd yn effeithiol i leihau aflonyddwch i ddefnyddwyr terfynol. | Rheolwr TGCh |

| | |
|---|---|
| 51. Sicrhau datgomisiynu systemau'n effeithiol ac yn ddiogel. | Rheolwr TGCh |
| 52. Bod yn gyfrifol am ffurfweddu, rheoli a chynnal canolfan ddata ar y safle'r Gwasanaeth a monitro storio SAN ar gyfer anghysondebau a gwallau hefyd yn cynllunio ac yn ymgymryd ag uwchraddio Meddalwedd a chaledwedd tra hefyd yn sicrhau argaeledd 24/7. | Rheolwr TGCh |
| 53. Yn gyfrifol am ffurfweddu a chynnal systemau rheoli mynediad y Gwasanaeth pan gaiff ei ddirprwyo i TGCh. | Rheolwr TGCh |
| 54. Yn gyfrifol am gopïau wrth gefn System, y strategaeth wrth gefn, gan sicrhau eu bod yn addas i'r diben, wedi'u profi a'u dogfennu yn ogystal ag elfennau gofynnol parhad busnes ac adfer trychinebau. | Rheolwr TGCh/Rheolwr Diogelwch a Chydymffurfiaeth TGCh |
| 55. Sefydlu a chynnal gweinyddion sy'n cynnal gwasanaethau rhwydwaith, fel DNS a DHCP. | Rheolwr TGCh |
| 56. Caffael, ffurfweddu a chyhoeddi tystysgrifau diogelwch system. | Rheolwr TGCh |
| 57. Cysylltu a goruchwylio gwaith contractwyr allanol a thrydydd partïon eraill sy'n darparu gwasanaethau sy'n ymwneud â systemau'r Sefydliad. | Rheolwr TGCh |

**GWASANAETH TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU**

**MANYLEB Y PERSON**

| | |
|---|---|
| **TEITL SWYDD** | Gweinyddwr System TGCh (Sysadmin) |
| **LLEOLIAD** | Pencadlys y Gwasanaeth, Caerfyrddin |
| **RHIF Y SWYDD** | |
| **GRADDFA** | Gradd 9 |
| **ADRAN** | Adran TGCh |
| **GWIRIAD GDG** | Sylfaenol |

Sicrhewch eich bod yn mynd i'r afael â phob un o'r gofynion canlynol yn eich Ffurflen Gais gan y byddant yn cael eu defnyddio at ddibenion llunio rhestr fer. Dylech ddarparu tystiolaeth glir sy'n dangos eich bod yn cwrdd â phob maes yn seiliedig ar eich sgiliau, gwybodaeth, profiad a galluoedd sy'n berthnasol i'r swydd.

| **Ffactor** | **Tystiolaeth** | **Hanfodol / Dymunol** | **Dull Asesu** |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau** | Cymwysterau a gydnabyddir gan y diwydiant TGCh | Dymunol | Ffurflen gais a Thystysgrifau |
| | Cymwysterau Rheoli Prosiectau a gydnabyddir gan y diwydiant fel Prince II ac Agile | Dymunol | |
| | Cymwysterau Safon Uwch (neu'r hyn sy'n cyfateb) a/neu Radd mewn pwnc TGCh | Dymunol | |
| | Trwydded Yrru Lawn | **Hanfodol*** | Ffurflen Gais |
| **Gwybodaeth** | Dealltwriaeth wych o dermau technegol, caledwedd a meddalwedd TGCh ac arferion gorau TGCh cyfoes. | **Hanfodol*** | Ffurflen gais a chyfweliad |
| | Gwybodaeth wych a gwaith gweinyddu a chomisiynu technegol ymarferol ar Weinyddion Windows (Ffisegol a Rhithwir - Hyper-V), Meddalwedd Menter, SQL DBA a systemau Cwmwl/SaaS/IaaS | **Hanfodol*** | |
| | Dealltwriaeth dechnegol dda Rhwydweithio, Seilwaith, Dylunio rhwydwaith, Dyfeisiau rhwydweithio | **Hanfodol*** | |
| | Gwybodaeth wych am seiberddiogelwch, gan gynnwys yr arferion gorau, ffurfweddiadau diogel effeithiol, risgiau diogelwch cyfoes a chyd-fynd â fframweithiau a safonau diogel. | **Hanfodol*** | |
| | Gwybodaeth wych am Adfer yn sgil Trychineb, Parhad Busnes, Rheoli Risg, Gwydnwch a Dyblygu | **Hanfodol*** | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Profiad** | O leiaf 5 mlynedd mewn rôl TGCh<br><br>O leiaf 3 blynedd o brofiad yn gweinyddu gweinyddion a meddalwedd (ffisegol a rhithwir gan gynnwys Ar y Safle a'r Cwmwl)<br><br>Cyflawni un neu fwy o brosiectau TGCh sylweddol lle roedd gennych gyfrifoldeb am y canlyniad<br><br>Profiad o ddefnyddio eich syniadau TGCh eich hun i weithredu newid sefydliadol<br><br>Gweithio'n ymarferol â ffurfweddu systemau Microsoft, gan gynnwys pob agwedd ar weinyddu Microsoft 365 ac Azure. | **Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>Dymunol<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol*** | Ffurflen gais<br><br>Ffurflen gais<br><br>Ffurflen gais a chyfweliad<br><br>Ffurflen gais a chyfweliad<br><br>Ffurflen gais a chyfweliad |
| **Cyfathrebu** | Sgiliau llafar ac ysgrifenedig Saesneg<br><br>Sgiliau llafar ac ysgrifenedig Cymraeg<br><br>Cyfathrebu effeithiol â rheolwyr, staff a chyflenwyr yn enwedig ar gyfer termau technegol TGCh | **Hanfodol***<br><br>Dymunol<br><br>**Hanfodol*** | Ffurflen gais a chyfweliad |

**Yn unol â gweithdrefn Recriwtio a Dethol y Gwasanaeth, mae angen datgeliad safonol fel isafswm ar gyfer pob rôl.**

**Bydd rhai rolau yn amodol ar lefelau uwch o wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, yn dibynnu ar ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r rôl, ac fel y'u dynodir gan y Pennaeth Rheoli neu'r Adran berthnasol.**

**Lle mae gofyniad wedi'i nodi am wiriad lefel uwch gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, nodir y lefel a'r cyfiawnhad ar gyfer hyn isod:**

**LEFEL: Sylfaenol**

**DYDDIAD:**

# Sut i wneud cais

Dyddiad Cau: 01 Hydref 2025 am 16:30yp

Mae'r wybodaeth a ddarperir ar y ffurflen gais yn wybodaeth allweddol a bydd yn cael ei defnyddio yn y broses o lunio rhestr fer. Mae'n bwysig felly bod y nodiadau canllaw isod yn cael eu dilyn wrth lenwi'r ffurflen gais. Bydd hyn yn sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol ar gael er mwyn gwneud penderfyniad ynghylch a fydd eich enw yn cyrraedd y rhestr fer ar gyfer cyfweliad. Bydd llunio'r rhestr fer yn cynnwys asesu'r manylion a ddarperir ar y ffurflen gais yn erbyn y meini prawf a amlinellir yn y Fanyleb Person a ddarperir.

Derbynnir ceisiadau mewn fformatau eraill pan fydd ymgeisydd yn cael anhawster i gwblhau'r ffurflen safonol o ganlyniad i anabledd.

## Beth fydd yn digwydd ar ôl i chi anfon eich cais?

Unwaith y byddwn wedi derbyn eich cais, byddwn yn gwahanu'r ffurflen monitro cyfle cyfartal na fydd yn rhan o'r broses ddethol ac yn anfon y ffurflen gais yn unig i'r adran sy'n llunio'r rhestr fer. Byddwn yn anfon cydnabyddiaeth o'i dderbyn at bob ymgeisydd.

Bydd eich cais wedyn yn cael ei asesu yn erbyn y meini prawf (mewn manyleb person) a bydd y panel sy'n llunio'r rhestr fer yn penderfynu a ellir eich cynnwys ar y rhestr fer.

Os na chaiff eich enw ei roi ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad, fe'ch hysbysir yn ysgrifenedig, fel arfer cyn pen chwe wythnos i'r dyddiad cau. Os nad ydych wedi clywed gennym erbyn hynny, cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda.

Os caiff eich enw ei gynnwys ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad, byddwch yn derbyn e-bost oddi wrthym cyn pen 2-3 wythnos i'r dyddiad cau fel arfer, yn nodi dyddiad, amser a lleoliad y cyfweliad. Bydd yr e-bost hefyd yn cynnwys manylion y profion asesu sydd i'w cynnal a bydd yn rhoi rhestr o'r ddogfennaeth y mae'n ofynnol i chi ei chario gyda chi, os yw'n berthnasol i'r rôl.

Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

www.tancgc.gov.uk